## NODYN CYNGOR CYNLLUNIO 1

## SIARAD CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

**Lle a phryd mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cwrdd?** -- Mae'r Pwyllgor Cynllunio fel arfer yn cyfarfod ar fore dydd Iau cyntaf y mis am 10am. Cynhelir y cyfarfod o bell drwy Microsoft Teams yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Fe'ch cynghorir i wirio'r trefniadau ymlaen llaw gan gynnwys a yw'r cais y mae gennych ddiddordeb ynddo eisoes wedi cael ei benderfynu gan swyddogion cynllunio.

**Pwy all fynychu?** -- Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn gyfarfod cyhoeddus. Nid yw'n cael ei ddarlledu'n fyw ond gall unrhyw un fod yn bresennol, gan gynnwys y wasg. Fel arfer, rhoddir recordiad o bob cyfarfod ar wefan y Cyngor wedyn.

Mae rhai eitemau ar yr agenda fel yr adroddiad gorfodi yn gyfrinachol ac ni fydd gennych fynediad i weld y rhannau eithriedig hyn o'r cyfarfod.

**Pwy all siarad?** -- Bydd y Cadeirydd yn caniatáu i un parti siarad i gyflwyno pob ochr yr achos. Trefn y siaradwyr fydd...

- Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno'r eitem.
- Bydd swyddog cynllunio yn cyflwyno'r achos ac yn trafod unrhyw ohebiaeth hwyr.
- Un gwrthwynebydd. Os oes mwy nag un gwrthwynebydd, caniateir i'r person cyntaf i gofrestru'r slot siarad siarad
- Un cefnogwr i'r cynllun. Os oes mwy nag un cefnogwr, caniateir i'r person cyntaf i gofrestru'r slot siarad siarad
- Un cynrychiolydd o'r Cyngor Tref neu Gymuned.
- Yr Aelod Ward sy'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio y mae'r cais wedi'i leoli yn ei ward. Ni allant gymryd rhan yn y ddadl neu'r bleidlais ond gallant annerch y Pwyllgor Cynllunio am hyd at 5 munud.
- Lle nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio, Aelod Ward y mae'r cais wedi'i leoli yn ei ward (ond heb bleidlais).
- Yr ymgeisydd neu ei asiant.

*Mewn achosion eithriadol, gellid caniatáu i fwy nag un person siarad o blaid neu yn erbyn cynnig. Bydd hyn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd ond bydd yn cael ei gyfyngu i geisiadau cynllunio mawr neu gynlluniau sydd wedi ennyn diddordeb sylweddol ymysg y cyhoedd.*

**Sut ydw i'n cofrestru i siarad?** -- Gallwch archebu slot siarad trwy e-bostio planning@blaenau-gwent.gov.uk. Rhaid i hyn fod o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod. Y dyddiad cau felly yw 10.00am ar ddydd Mawrth wythnos y Pwyllgor. Bydd methu â chofrestru'ch dymuniad i siarad erbyn y dyddiad cau yn arwain at golli'ch hawl i siarad. Rhaid i chi nodi yn eich e-bost p'un a ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais fel bod y slot yn cael ei ddyrannu i'r person cywir.

**Pa mor hir y bydd yn rhaid i mi siarad?** -- Bydd pob siaradwr yn cael uchafswm o 5 munud. Ni chaniateir i chi ddosbarthu cynlluniau/mapiau, lluniau na phapurau eraill. Pan nad ydych chi'n siarad rhaid diffodd eich camera a'ch meicroffon. Mae'r swyddogaeth sgwrsio wedi'i hanalluogi.

**Beth alla i ei ddweud?** -- Rhaid i chi gyfyngu ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud i faterion cynllunio perthnasol fel y Cynllun Datblygu, polisi/canllawiau'r llywodraeth, effaith weledol neu ymddangosiad ac ystyriaethau priffordd. Nid yw materion fel dibrisio eiddo, anghydfodau tir a chystadleuaeth rhwng busnesau yn berthnasol i'r system gynllunio a rhaid iddynt gael eu diystyru gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae Atodiad A isod yn rhoi mwy o ganllawiau ar y pwnc hwn.

**Yn y Pwyllgor Cynllunio**

- Rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio wneud ei benderfyniad yn unol â rheolau cyfreithiol llym. Ni all gymeradwyo cais dim ond gan fod llawer o bobl yn cefnogi neu wrthod caniatâd cynllunio gan fod llawer o bobl yn gwrthwynebu. Rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud yn seiliedig ar resymau cadarn a chynllunio amddiffynadwy.

- Cynghorir siaradwyr eu bod yn bersonol gyfrifol am yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Dylech fod yn ymwybodol bod y cyfarfodydd yn cael eu recordio a'u cyhoeddi ar wefan CBS Blaenau Gwent felly maent ar gael i'r cyhoedd.

- Nid oes angen i chi ailadrodd unrhyw bwyntiau y gallech fod wedi'u codi mewn unrhyw wrthwynebiadau ysgrifenedig. Byddant yn cael eu cynnwys yn adroddiad y swyddog.

- Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, efallai y gofynnir i chi ateb cwestiynau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

- Cynghorir ymgeiswyr mai eu cyfrifoldeb nhw yw gwirio pryd y bydd cais yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

- Ni fydd y Cyngor yn hysbysu ymgeiswyr na'u hasiantau bod gan berson yr hawl i siarad o blaid neu yn erbyn eu cais.

- Dylech fewngofnodi i Microsoft Teams gyda'r ddolen a ddarparwyd i chi 10 munud cyn i'r cyfarfod ddechrau. Byddwch yn mynd i'r lobi aros ac yn cael eich derbyn cyn i'r cyfarfod ddechrau.

- Ni fydd eitem yn cael ei gohirio os bydd person sydd wedi cofrestru i siarad yn methu â bod yn bresennol.

- Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi o gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Saesneg. Os ydych yn dymuno annerch y Pwyllgor Cynllunio yn Gymraeg, rhowch wybod i'r Cyngor pan fyddwch yn cofrestru eich dymuniad i siarad fel y gellir gwneud trefniadau cyfieithu.

**Beth sy'n digwydd os yw'r cais yn cael ei ohirio?** -- Mae'r polisi hwn ond yn berthnasol i wrandawiad cyntaf y cais yn y Pwyllgor Cynllunio. Os trefnir ymweliad safle ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, ni chaniateir siaradwyr pellach fel arfer oni bai bod y Cadeirydd, o dan gyngor y Prif Swyddog Cyfreithiol, o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn dod i benderfyniad gwybodus.

**Manylion Cyswllt**
I gofrestru i siarad yn y Pwyllgor Cynllunio, e-bostiwch planning@blaenau-gwent.gov.uk
Am ddolen i fynychu'r Pwyllgor Cynllunio, e-bostiwch committee.services@blaenau-gwent.gov.uk

Rheolwr Tîm - Rheoli Datblygu
Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy NP23
6DN

**<u>Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol neu Faterol</u>**

Pan wneir penderfyniad ar gais cynllunio, dim ond rhai materion y gellir eu hystyried. Cyfeirir at y rhain fel 'ystyriaethau cynllunio materol'. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr nac yn nhrefn eu pwysigrwydd.

- ✓ *Polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol e.e. y Cynllun Datblygu Lleol a Pholisi Cynllunio Cymru.*
- ✓ *Cyfraith a rheoliadau'r UE.*
- ✓ *Cylchlythyrau, gorchmynion, offerynnau statudol, canllawiau a chyngor y llywodraeth e.e. Nodiadau Cyngor Technegol (TAN's).*
- ✓ *Hanes cynllunio gan gynnwys penderfyniadau apêl ac ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.*
- ✓ *Cyfraith achosion.*
- ✓ *Manteision economaidd-gymdeithasol e.e. creu cyflogaeth.*
- ✓ *Cynaliadwyedd.*
- ✓ *Cadwraeth natur gan gynnwys cynefinoedd a chyfleoedd bioamrywiaeth.*
- ✓ *Colli golwg neu gysgodi (nid colli golygfa).*
- ✓ *Risg o lifogydd.*
- ✓ *Edrych drosodd a cholli preifatrwydd.*
- ✓ *Materion priffyrdd e.e. cynhyrchu traffig, mynediad, diogelwch priffyrdd.*
- ✓ *Sŵn neu aflonyddwch cyffredinol yn deillio o ddefnydd, gan gynnwys oriau gweithredu arfaethedig.*
- ✓ *Arogleuon, ansawdd aer ac allyriadau.*
- ✓ *Archaeoleg.*
- ✓ *Capasiti seilwaith, e.e. systemau draenio cyhoeddus.*
- ✓ *Diffygion mewn cyfleusterau cymdeithasol, e.e. mannau mewn ysgolion.*
- ✓ *Tir halogedig.*
- ✓ *Colli coed neu effaith ar goed.*
- ✓ *Mynediad i bobl anabl i adeiladau presennol.*
- ✓ *Effaith ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.*
- ✓ *Cynllun, graddfa, ymddangosiad a dwysedd adeiladau.*
- ✓ *Tirlunio a dulliau amgáu.*
- ✓ *Colli mannau agored.*
- ✓ *S106 neu Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC).*

Mae'r pwysau a roddir ar ystyriaethau perthnasol yn fater o farn. Bydd hyn yn amrywio o achos i achos. Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ddangos, wrth ddod i bob penderfyniad, eu bod wedi ystyried yr holl faterion perthnasol. Rhaid rhoi mwy o bwyslais ar faterion sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth yn hytrach nag yn unig gan anecdotau, honiadau neu dybiaethau.

***Ystyriaethau Cynllunio Anfaterol neu Amherthnasol:***
Ni chaniateir i'r Cyngor ystyried y canlynol wrth benderfynu ar gais cynllunio.

- *Gostyngiad yng ngwerth eiddo.*
- *Cynsail.*
- *Materion moesol, hiliol neu grefyddol.*
- *Cynllun mewnol adeiladau.*
- *Materion a reolir gan ddeddfwriaeth arall e.e. sefydlogrwydd strwythurol, rhagofalon tân, trwyddedau ac ati.*
- *Materion preifat rhwng cymdogion e.e. anghydfodau perchnogaeth/ffiniau, difrod i eiddo, hawliau mynediad preifat, cyfamodau, hawliau preifat i olau, cynnal a chadw eiddo.*
- *Hunaniaeth yr ymgeisydd, ei gymhellion, ei amgylchiadau personol neu ei hanes blaenorol o gynllunio.*
- *Gwrthwynebiadau/sylwadau a wnaed yn flaenorol ynghylch safle neu gais arall.*
- *Cystadleuaeth rhwng busnesau preifat unigol neu'r egwyddor "gormod eisoes".*
- *Colli golygfeydd.*
- *Amser a gymerir i gwblhau'r datblygiad.*